



Cnau Coco Caled

6 Sesiwn Clwb Plant

Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid
Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Nia W Williams

Ionawr 2011



Cnau Coco Caled

Nod

Mae'r hanesion o'r Beibl a gyflwynir yn y sesiynau hyn o wythnos i wythnos wedi eu cynllunio i helpu'r plant i feddwl am drefn Duw wrth iddyn nhw ddechrau byw mewn pentref ar ynys drofannol ddechrau.

Byddant yn dysgu

- am gyfiawnder a sancteiddrwydd Duw
- am gariad aruthrol Duw tuag atom
- am Iesu'n talu'r gost drosom
- am fod yn aelod o dîm Duw
- am ddal ati gyda Duw.

Thema

Y thema ar gyfer y dysgu fydd "ynys drofannol", a chydweithio fel "pentrefwyr" yn gefndir iddo. Er mwyn creu awyrgylch hwyliog, gallwch ddefnyddio'r dychymyg ac addurno ystafell cyfarfod y clwb ag addurniadau trofannol e.e. dail papur crêp i roi'r syniad o jyngl, coed palmwydd, bananas neu binafal a chnau coco (wrth gwrs!), lluniau parotiaid, poster neu luniau o gatalogau gwyliau i addurno'r waliau. Os oes arian gennych, mae digonedd o addurniadau trofannol i'w cael gan gwmnïau partïon plant ar y we.

Gan y bydd y plant yn cael eu rhannu'n dimau pentrefi, byddai'n syniad creu siart bresenoldeb gyda lle arni i roi sticer ger eu henwau, neu ddefnyddio cardiau aelodaeth. Mae digonedd o sticeri lliwgar a diddorol i'w cael.

Trefn

Wrth ddechrau clwb o'r newydd, neu ar ddechrau blwyddyn, mae'n bwysig cofrestru pob plentyn a gofyn i rieni lenwi ffurflen wybodaeth i'w chadw'n ofalus gan arweinydd y clwb. Mae ffurflenni proforma i gofrestru plant i'w cael yn nogfen "Er Mwyn ein Plant", Atodiad 6. (Ar gael hefyd ar y wefan www.paneldiogelwch.org.uk o dan y pennawd "Dogfennau a Pholisïau").

Wrth i'r plant gyrraedd, mae'n dda cael gwirfoddolwr i'w cofrestru, tra bo arweinwyr eraill yn rhydd i gyfarch y plant a naill ai chwarae gêm gyda nhw, neu roi gweithgaredd syml iddyn nhw i'w

chyflawni nes bydd y rhan helaeth o'r plant wedi cyrraedd. Cofiwch fod angen o leiaf 2 arweinydd, a mwy yn ôl y nifer o blant fydd yn mynychu'r clwb.

Paratoi

Mae'n hynod o bwysig eich bod yn glir beth fyddwch yn ei wneud gyda'r plant yn ystod y clwb. Darllenwch trwy'r arweiniad a gewch, edrychwch ar y rhestr o bethau y bydd eu hangen arnoch, a darllenwch y stori o'r Beibl yn ofalus, fel ei bod yn glir yn eich meddwl ac y byddwch yn barod am unrhyw gwestiynau fydd gan y plant.

Ceisiwch gyfarfod fel arweinwyr i weddio ac i gynllunio gweithgarwch y clwb. Mae'n ffordd dda o ofalu bod y clwb yn lle diogel a hwyliog i'r plant ddod iddo ac yn gymorth i gadw eich brwdfrydedd chi, ac felly frwdfrydedd a diddordeb y plant.

Os ydych yn cychwyn clwb plant am y tro cyntaf, mae'n hanfodol eich bod wedi paratoi gwirfoddolwyr ymlaen llaw. Mae arweiniad clir i'w gael yn nogfen "Er mwyn ein plant" a gynhyrchwyd gan y Panel Diogelwch Cydenwadol, ac mae hyfforddiant i'w gael trwy'r Panel.

Gellir cysylltu â'r Panel trwy ffonio 01745 817584, neu e-bostio pdpowen@aol.com a gallwch gael gwybodaeth am faterion diogelwch ar y wefan www.paneldiogelwch.org.uk

Adnoddau defnyddiol

• **Beibl Bach i Blant** (Cyhoeddiadau'r Gair)
Addas ar gyfer pob oed!

• **Y Beibl i Blant mewn 365 o Storiâu** (Gwasg Efyngylaid Cymru)
Mwy o fanylder yn y storiâu, a'r print yn llai.

• **Beibl Newydd y Plant** (Cyhoeddiadau'r Gair a Scripture Union)
Yn fwy addas ar gyfer y plant lleiaf, ond yn ddefnyddiol hefyd i roi crynodeb.

• **Beibl Newydd y Storiwr** (Cyhoeddiadau'r Gair)
Ceir cyfarwyddiadau ar sut i annog y plant i ymuno yn y stori yng nghefn y llyfr.

- **Beibl Lliw y Plant** (Cyhoeddiadau'r Gair)

Mae'n cynnwys lluniau a gwybodaeth gefndir, ac yn gosod y storïau yn eu cyd-destun.

- **Tyrd i Ddathlu** (Coleg y Bala)

Llyfr caneuon Cristnogol bywiog i blant yn cynnwys cryno-ddisg

- **Y Cyntaf a'r Olaf** (Eglwys Bresbyteraidd Cymru)

Llyfr o ganeuon Cristnogol i blant ac ieuenctid yn cynnwys CD ac mae traciau cefndir ar gael mewn CD ar wahân.

- **Mwy na Drama'r Nadolig!** Catrin Roberts (Cyhoeddiadau'r Gair)

Casgliad o 42 o sgetsys, rhai ohonynt yn adrodd storïau am Iesu, ac eraill yn ailadrodd rhai o'r storïau mwyaf cyfarwydd a adroddwyd gan Iesu, er mwyn dysgu neges yr efengyl i'w ddilynwyr.

Cyngor a chefnogaeth

Os hoffech gael cyngor ynglŷn â chychwyn neu redeg clwb plant, cysylltwch â

Coleg y Bala

Canolfan Plant ac Ieuenctid Eglwys Bresbyteraidd
Cymru
Ffordd Ffrydan
Y Bala
Gwynedd
LL23 7RY

Ffôn: 01678 520565

E-bost: colegybala@ebcpcw.org.uk

Nod

Cyflwyno'r thema a'r syniad fod angen rheolau i gyd-fyw yn ddedwydd; hanes Moses yn derbyn y Deg Gorchymyn.

Bydd angen

- Pensiliau
- Taflen "Ffeil o ffeithiau" i bob plentyn (gweler Atodiad 1)
- Enwau'r pentrefi i'w harddangos (gweler Atodiad 2)
- Papur (i sgwennu rheolau'r pentre)
- Beibl Bach i Blant, Stori Llyfr "Tyrd i Ddathlu"
- Geiriau'r gân
- Cardiau Aelodaeth "Cnau Coco Caled" (Atodiad 3)

1. Cofrestru

Cofnodi enwau pawb, rhannu ffurflenni cofrestru i rieni eu llenwi (os mai hon yw sesiwn gyntaf y clwb).

2. Gweithgaredd wrth gyrraedd

Taflen "Ffeil o ffeithiau". Taflen fechan i'r plant ei llenwi gan roi cyfle i chi sgwrsio a dod i'w hadnabod, ac i roi cyfle i bawb gyrraedd.

3. Cyflwyno'r thema

Egluro ein bod, yn ystod yr wythnosau nesa, am ddychmygu ein bod ar ynys drofannol pan fyddwn yn dod i'r Clwb.

Mae'r ynys yng nghanol y môr mawr, rhyw 10 milltir o'r tir agosaf. Mae hi'n ynys braf gyda thraethau melyn, jyngl a bywyd gwyllt diddorol. Does neb yn byw yma, ond mae digonedd o goed ffrwythau o bob math. Lle braf i gyd-fyw a chyd-dynnu!

Tra byddwn ar yr ynys, fe fyddwn yn rhannu yn bedwar pentref (yn dibynnu ar nifer y plant):

- Pentre Onco Monco
- Pentre Wmbo Wmbo
- Pentre Wna Fana
- Pentre Dodo Myndi

Mi fydd gan pob pentref bennaeth – un o'r arweinwyr.

4. Rhannu i'r pentrefi

Bydd pentrefi yn gallu ennill pwyntiau trwy: drïo dod bob wythnos, dod â ffrindiau gyda nhw, a gwneud yn dda yn y gemau a'r gweithgareddau o wythnos i wythnos.

5. Gêm

Mae'n bwysig iawn bod pob aelod o'r pentref yn nabod ei gilydd yn dda. Pawb i eistedd mewn cylch. Y person cyntaf i ddweud ei enw, yna'r person nesaf i ddweud ei enw ei hun ac enw'r person blaenorol, a pharhau felly nes fod y person olaf yn gorfod dweud ei enw ac enw pawb arall yn y grŵp. Os oes amser gellid dechrau eto, ond newid y cyfeiriad o gwmpas y cylch.

Marciau pentrefi ... cofnodwch farciau timau wrth enw'r pentref a'u casglu o wythnos i wythnos.

6. Dawns y pentrefi

Gan ddefnyddio enw'r pentref i gael rhythm, y plant i greu dawns a siant unigryw i'w pentref nhw – meddwl am "Haca" tîm rygbi Seland Newydd i'w helpu.

Pob tîm i berfformio'u dawns.

Marciau pentrefi ...

7. Rheolau'r pentref

Aelodau pob pentref i feddwl am 5 rheol fyddai'n eu helpu i gyd-fyw fel pentrefwyr ar yr ynys. Ysgrifennydd i'w sgwennu i'w harddangos wrth enw'r pentre.

8. Stori

Moses yn derbyn y Deg Gorchymyn ar fynydd Sinai.

- Beibl Bach i Blant tud.120 – 125.
- Beibl Newydd y Plant tud. 45

Egluro bod Duw wedi rhoi'r rheolau yma i'r bobl er mwyn iddyn nhw ei barchu Ef, a pharchu ei gilydd. Byddai hynny yn eu helpu i fyw yn hapus gyda'i gilydd. Roedd Duw yn eu caru yn ofnadwy, fel mae'n ein caru ni, ac roedd arno eisiau y gorau iddyn nhw, fel y mae arno eisiau'r gorau i ni.

9. Gweddi

*“O, Dduw, mae arnon ni eisiau dy foli di am dy fod ti'n Dduw da,
ac am dy fod ti'n sanctaidd.
Diolch i ti am ein caru ni gymaint.
Diolch i ti am fod fod arnat ti eisiau'r gorau i ni bob amser.
Diolch i ti am roi y deg rheol i Moses er mwyn ein helpu ni i barchu'n gilydd.
Mae'n ddrwg gennym ni nad ydyn ni'n gwneud beth ddysten ni bob amser, a'n bod yn gallu brifo ein teulu neu'n ffrindiau.
Plis helpa ni i ddysgu mwy amdanat ti, a dod i dy adnabod a dy garu'n well.
Amen.”*

10. Cân

“Mi gamaf ‘mlaen” (Tyrd i Ddathlu, rhif 15)

Nod

Cyflwyno hanes cadw'r Deg Gorchymyn yn Arch y Cyfamod, a'r bobl yn dod i sylweddoli bod Duw yn sanctaidd.

Bydd angen:

- Dis – 1 rhwng pob 4 plentyn
- “Caneuon Ffydd”
- Geiriau'r gân
- Arwydd enwau'r “pentrefi” wedi eu harddangos
- Rheolau a marciau'r pentrefi wedi eu harddangos
- 2 ddarn o gerdyn i bob tîm e.e. ochrau bocsgrawnfwyd
- Bwced a bag ffa neu bêl sbwng fechan
- Yr adnod Luc pennod 10 adnod 27 i'w harddangos
- Beibl Bach i Blant

1. Cofrestru

Gosod sticeri neu stamp ar y cardiau aelodaeth, os byddwch yn eu defnyddio.

2. Gêm wrth gyrraedd

Gêm y dis. Pan fydd y plant yn cyrraedd, rhoi dis iddyn nhw i chwarae gêm. Dwedwch wrthyn nhw mai nhw fydd yn dyfeisio'r gêm. Mae'r gêm yn hollol ddibynnol ar ddyfeisgarwch y plant! Bydd angen 1 dis i bob 4 o blant. Pan fydd pawb wedi cyrraedd, ac wedi cael cyfle i fod yn rhan o'r gêm am ychydig, dewch â'r chwarae i ben.

Gofynnwch i'r plant a oedd ganddyn nhw reolau i'r gêm. Oedd posib chwarae'r gêm yn well os oedd yna reolau? Oedd y gêm yn fwy teg i bawb os oedd yna reolau?

3. Cân

“Mae'n Duw ni mor fawr” (Caneuon Ffydd, rhif 151)

4. Rhannu i'r pentrefi

Os oes plant newydd, cyfle i'w gosod mewn tîm pentref.

5. Dawns y pentrefi

(Gweler wythnos ddiwethaf) Atgoffa eu hunain o'r siant a'r ddawns, a'u perfformio.

6. Edrych ar y rheolau

Cyfle i'r timau atgoffa eu hunain o'r rheolau luniwyd wythnos ddiwethaf.

7. Gêm

Croesi'r dŵr. Caiiff pob tîm 2 ddarn o gerdyn. Mae hanner y tîm yn sefyll un ochr i'r ystafell a'r hanner arall ar yr ochr arall. Fesul un, mae'r plant i groesi'r ystafell trwy ddefnyddio'r ddau ddarn cerdyn, gan osod un darn o flaen y llall, camu 'mlaen, yna dod â'r cerdyn cyntaf o'r tu ôl iddynt a'i osod o'u blaenau i fynd ymlaen. Pan fo pob aelod o'r tîm wedi newid ochr, pawb i eistedd. Y tîm cyntaf i orffen sy'n ennill.

8. Cwis

Er mwyn cael hwyl wrth sgorio, gellid rhoi cynnig i'r plant daflu bag ffa i fwced o 3 pellter; y cyntaf o gadair wedi ei gosod tau 2 fetr oddi wrth y bwced (10 marc), yr ail o gadair tua 3 metr (20 marc), a'r trydydd o gadair tua 4 metr (40 marc).

Rownd 1

1. Beth ydi enw'r ynys fawr sydd fel pen ar fap o Gymru? Ynys Môn
2. Beth ydi enw'r ynys enwog sydd ar ben draw Penrhyn Llŷn? Enlli
3. I ba ynys fawr iawn yr ochr arall i'r byd roedd pobl yn cael eu gyrru am dorri'r gyfraith ers talwm? A. Awstralia; B Madagascar; C Manaw
4. Pwy fyddai'n arfer claddu eu trysor ar ynysoedd? A Morwynion; B Ffermwyr; C Môr-ladron?

Rownd 2

5. Pa fath o anifail ydi siarc? Pysgodyn neu famal? Pysgodyn
6. Beth sydd yna'r holl ffordd o gwmpas ynys? Môr
7. Enwch un môr-leidr Cymreig e.e. Barti Ddu, Harri Morgan
8. Pa aderyn fyddwn ni'n ei gysylltu â môr-ladron? Parot

Rownd 3

9. Beth sydd y tu mewn i gneuen coco? Llaeth
cnau coco
10. Pa fath o goed ydyn ni'n eu cysylltu ag
ynyoedd mewn llefydd poeth a braf?
A Coed Derw; B Coed Palmwydd;
C Coed afalau
11. Ym mha fôr mae Ynys Cyprus?
A Môr y Canoldir B Môr Coch C Môr Marw
12. Pa un o'r rhain sy'n ynys yn y Caribî?
A Sgomer B Tenerife C Barbados

10. Dysgu adnod

Iesu ddwedodd y geiriau yma.

*“Câr yr Arglwydd dy Dduw a’th holl galon ac a’th holl enaid ac a’th holl nerth ac a’th holl feddwl, a châr dy
gymydog fel ti dy hun.”*

Luc pennod 10 adnod 27

Dysgwch yr adnod trwy ddefnyddio'r symudiadau canlynol:

Câr yr Arglwydd dy Dduw
â'th holl galon
ac â'th holl enaid
ac â'th holl nerth
ac â'th holl feddwl
a châr dy gymydog
fel ti dy hun
Luc pennod 10
adnod 27

*rhowch eich dwy law i fyny, ac edrych i fyny'n hapus
rhowch eich dwy law ar eich calon
rhowch eich dwy law i fyny a'u sgubo i lawr eich corff
plygwch eich breichiau i ddangos eich cyhyrau
trowch eich bysedd bob ochr i'ch pen
pwyntiwch at bawb o'ch cwmpas
lapiwch eich breichiau o'ch cwmpas
dangoswch 10 bys
dangoswch 10 bys ddwywaith a 7 bys i ddilyn - yn gyflym!*

11. Gweddi

Gofynnwch i'r plant sefyll mewn cylch. Eglurwch fod pawb yn mynd i gael cyfle i weddio brawddeg yn gofyn am help Duw i wneud beth sy'n iawn. Buasai'n gymorth rhoi patrwm brawddeg i'r plant. Er enghraifft:

“O Dduw, wnei di ein helpu i fod yn ufudd i Dad a Mam.”

“O Dduw, wnei di ein helpu i fod yn ffrind da i bawb.”

“O Dduw, wnei di ein helpu i ddweud y gwir bob amser.”

12. Dawns y pentrefi i orffen!

9. Stori

Arch y Cyfamod

Beibl Bach i Blant tud.126 – 129.

Eglurwch fod Duw wedi dweud bod eisiau i'r rheolau arbennig, y Deg Gorchymyn, gael eu cadw mewn bocs arbennig iawn oedd yn cael ei alw'n Arch y Cyfamod. Roedden nhw i fod i gadw'r bocs arbennig mewn pabell arbennig yng nghanol gweryll Pobl Dduw.

Dangosai hyn fod rheolau Duw i fod yng nghanol popeth roedd y bobl yn ei wneud. Roedd cadw'r rheolau yn y bocs arbennig, Arch y Cyfamod, ac yn y babell arbennig, y Tabernacl, yn dangos fod eisiau i'r bobl barchu Duw, am fod Duw yn arbennig, yn sanctaidd.

Nod

Cyflwyno'r ffaith fod Duw yn ein caru mewn ffordd ryfeddol, a'i fod yn gwybod popeth amdanom.

Bydd angen:

- 1 neu ddwy bêl sbwng (maint pêl droed)
- Tâp masgio ("masking tape")
- Arwydd enwau'r "pentrefi" wedi eu harddangos
- Rheolau a marciau'r pentrefi wedi eu harddangos
- Llyfr "Tyrd i Ddathlu"
- Geiriau'r gân
- Llun tatw wyneb Maori (oddi ar y we, neu o lyfr)
- Adnod wedi ei dyblygu ar 4 papur lliw gwahanol, a'u torri'n ddarnau jig-so
- Dîs, papur a phensil i bob grŵp

1. Cofrestru

Cardiau aelodaeth, os ydych yn eu defnyddio

2. Gweithgaredd wrth gyrraedd

Map o'r ynys. Cyfle i'r plant fod yn greadigol trwy greu map o'r ynys ddychmygol lle mae'r pentrefi, gan ddangos y gwahanol bentrefi ar y map, a'r mynyddoedd, afonydd, traethau... ac unrhyw beth arall maen nhw'n ddychmygu sydd yno!

3. Cân

"O fy nhraed i fy nghlust" (Tyrd i Ddathlu 22)

4. Gêm

"Gwyliwch y pysgod-jeli!" Amrywiaeth ydi hon ar yr hen ffefryn "Pêl ar dân". Bydd angen dynodi sgwâr neu betryal ar lawr gyda thâp masgio, digon mawr i'r plant sefyll ynddo gyda rhywfaint o le iddyn nhw symud o fewn y sgwâr/petryal. Bydd yr arweinydd yn dechrau'r gêm trwy rowlio pêl sbwng ar hyd y llawr gan geisio taro coesau'r plant rhwng y ffêr a'r ben glin. Bydd unrhyw blentyn fydd yn cael ei daro yn dod i helpu ar ymyl y sgwâr/petryal. Os bydd y plant yn rhoi troed tu allan i'r siâp, byddant

hwythau yn ymuno ar y tu allan i rowlio'r bêl. Ar ôl ychydig, gallwch ddod a phêl arall i wneud pethau'n anoddach! Y plentyn olaf heb ei daro fydd yr enillydd, ac sy'n ennill pwyntiau i'w bentref.

5. Dawns y pentrefi

6. Gêm

Gêm y trychfilod. Ar bob ynys drofannol mae trychfilod o bob math. Mae rhai hyd yn oed yn fwytadwy! Chwaraewch y gêm "Beetle" mewn timau i weld pa dîm fedr wneud trychfil gyntaf.

Mae pob tîm yn cael dis, darn o bapur a phensil. Y plentyn ieuengaf yn y tîm i daflu dis yn gyntaf. Rhaid taflu 1 ar y dis cyn cael cychwyn. Unwaith y byddant yn taflu 1 mae'r plentyn hwnnw yn tynnu llun corff y chwilen. Y plentyn nesaf i daflu'r dis. Rhaid taflu'r rhif cywir i ennill darnau eraill y corff (a thynnu eu llun i greu chwilen gyfan):

2 = pen, 3 = teimlydd (2), 4 = llygaid (2),
5 = trwyn (1), 6 = coes (6).

Y tîm cyntaf i adeiladu chwilen fydd yn ennill!
Pwyntiau i'r pentrefi!

7. Tatw Duw

Ydach chi wedi sgrifennu ar eich llaw â beiro rhywdro? Dydi hynny ddim yn syniad da iawn. Mae'n anodd i'w olchi i ffwrdd a dydi o ddim y peth iachaf i'ch croen chwaith. Mae yna rai pobl yn mynd gam ymhellach ac yn cael tatw. Mae tatw wedi bod yn rhan o ddiwylliant pobl ardal Seland Newydd ers amser maith. (Dangos llun y Maori).

Mae hi bron yn amhosib i gael gwared o datw, felly gobeithio fod y bobl yn fodlon i'w gael am weddill eu hoes!

Ond wyddoch chi fod y Beibl yn dweud bod gan Duw datw?

8. Gwrandewch

*“A fydd mam yn anghofio y plentyn mae’n ei fagu?
Neu’r plentyn sydd wedi ei eni? Hyd yn oed os byddan
nhw’n anghofio, wna i mo dy anghofio di. Rydw i wedi
cerfio dy enw ar gleidr fy nwylo.”*

Eseia pennod 49 adnodau 15 ac 16

Mae Duw yn gwybod popeth amdanon ni; mae’n gwybod pa jôcs sy’n gwneud i ni chwerthin, mae’n gwybod beth ydi’n hoff fwyd ni, mae’n gwybod beth sy’n ein dychryn, mae’n gwybod pwy ydi’n ffrind gorau, mae’n gwybod faint o flew sydd ar ein pen. Ac mae o’n meddwl ein bod ni’n arbennig iawn. Mor arbennig nes ei fod wedi cerfio ein henw ar gleidr ei law ... yr un fath a tatw, mae ein henw ni ar law Duw am byth.

9. Dysgu adnod

Cystadleuaeth i’r pentrefi. Ras gyfnewid i nôl darnau’r adnod a’u rhoi at ei gilydd i fedru darllen yr adnod:

*“Mae Duw wedi caru’r byd cymaint nes
iddo roi ei unig Fab.”*

Ioan pennod 3 adnod 16

Wedi iddyn nhw gasglu’r darnau a chael trefn ar y geiriau, pob pentref i geisio dysgu’r adnod. Rhoddir pwyntiau ychwanegol i’r pentref sy’n gallu dweud yr adnod heb edrych.

10. Gweddi

Arweinydd i arwain y weddi, a’r plant i ymuno yn y rhan print trwm.

*“Arglwydd, am dy fod ti’n Dduw mawr,
Rydyn ni’n dy foli!
Arglwydd am dy fod ti’n gofalu amdanom ni,
Rydyn ni’n dy foli!
Arglwydd am dy fod ti wedi creu y byd,
Rydyn ni’n dy foli!
Arglwydd, am dy fod ti’n nerthol,
Rydyn ni’n dy foli!
Arglwydd, am dy fod ti’n gwybod pob dim,
Rydyn ni’n dy foli!
Arglwydd, am dy fod ti’n ein caru ni bob un,
Rydyn ni’n dy foli! Amen!”*

Nod

Cyflwyno'r ffaith fod Duw yn barod i faddau i ni pan fyddwn yn ei siomi ac arnom angen gofyn am Ei faddeuant.

Bydd angen:

- Drysfa (Atodiad 4) + pensil i bob tîm
- Chwiban
- Rhodyn papur toiled i bob tîm
- Llyfr "Y Cyntaf a'r Olaf"
- Geiriau'r gân
- Stori: Dyn Cyfoethog Tlawd – paratoi sgets
- DVD "Lion King"
- Cyfarpar dangos DVD
- "Shredder"

1. Cofrestru

Cardiau aelodaeth, os ydych yn eu defnyddio.

2. Gêm

Ras gyfnewid drysfa – rhannu i'r timau. Mae'r plentyn cyntaf yn rhedeg at y ddrysfa ac yn dechrau darganfod y llwybr. Mae'r person nesa'n cymryd drosodd pan fydd y chwiban yn chwythu. Parhau fel hyn nes bydd y ddrysfa wedi ei chwblhau.

3. Sialens Pentrefi

Lapio 1 person mewn rhodyn o bapur toiled. Pwyntiau i'r gorau ac i'r tîm sy'n cydweithio orau. Sialens ar y diwedd – lapio'r rhodyn yn ei ôl yn union fel ag yr oedd.

4. Stori

Beibl Lliw i Blant "Y dyn ifanc cyfoethog" t. 247 neu Y Beibl i Blant mewn 365 o Storiâu t. 331 Stori 290 neu 'Mwy na Drama'r Nadolig' - "Y camel a chrau'r nodwydd" t. 13 – sgets. Bydd angen paratoi arweinwyr i gyflwyno'r sgets

5. Dysgu

Roedd y dyn yn meddwl ei fod wedi cadw'r rheolau'n dda. Ond roedd Iesu'n gwybod fod yna un peth oedd yn anodd iddo: roedd o'n caru ei arian yn fwy na Duw.

Mae Duw yn gwybod ei bod hi'n anodd i ni gadw'r

rheolau i'w safonau o. Mae Duw yn sanctaidd, does yna ddim drwg ynddo.

Nid dim ond beth wnawn ni sy'n cyfri, ond yr hyn fyddwn ni'n ei feddwl a'i ddweud.

Mae'n amhosib i ni gadw safon Duw 100%, fel roedd hi'n amhosib rhoi'r papur yn ôl yn union fel yr oedd ar y rhodyn yn yr her ddiwethaf. Dim ond un person lwyddodd i fyw bywyd 100% heb dorri rheolau Duw – Iesu. Pam? Am mai mab Duw ydi Iesu.

6. Pwy sy'n cofio'r adnod?

(gweler Wythnos 2)

Atgoffwch y plant o'r adnod, Luc pennod 10 adnod 27, ac adolygwch y symudiadau. Gellid rhoi pwyntiau i'r grwpiau sy'n ei chofio'n dda.

7. Gweithgaredd Gweddi

Dangos y rhan o'r ffilm "Lion King" lle mae Simba yn mynd i helynt wrth fynd a Nala i Fynwent yr Eliffantod.

Rydyn ninnau wedi torri rheolau Duw: wedi gwneud, dweud neu feddwl pethau sy'n siomi Duw. Eglurwch wrth y plant fod Duw yn maddau pan fyddwn ni'n gofyn am faddeuant am wneud, dweud neu feddwl rhywbeth na ddylen ni. Rhowch bapur a phensil i bawb gan egluro fod cyfle iddyn nhw sgwennu rhywbeth maen nhw eisiau dweud "sori" amdano ar y papur. Pwysleiswch na fydd neb arall yn ei weld, a'ch bod am ddifa'r papurau cyn gadael.

Arweinydd i weddiö dros y pethau mae'r plant (a'r arweinwyr!) wedi eu sgwennu, gan ofyn i Dduw faddau i bob un ohonoch. Yna, gofynnwch i'r plant ddod yn drefnus i roi eu gweddïau i arweinydd fydd yn eu rhoi trwy'r "shredder". Eglurwch fod Duw yn maddau'n gyfan gwbl pan fyddwn yn gofyn iddo faddau i ni. Fel mae'r papurau wedi eu difa, mae'r pethau y gweddïwyd amdanyn nhw wedi eu maddau'n gyfan gwbl gan Dduw.

8. Cân

"Weithiau mae 'na bethau"
(Y Cyntaf a'r Olaf, rhif 30)

9. Dawns y pentrefi

Nod

Cyflwyno'r ffaith ein bod i gyd yn bwysig ac yn cyfrannu doniau arbennig fel rhan o dîm, ac yn fwy felly fel rhan o deulu Duw.

Bydd angen:

- Bagiau plastig du
- Tair pellen o llyn
- 3 rholyn o selotêp
- 3 siswrn
- 5 cadair i bob grŵp
- “Mr Potato Head” (ar gael mewn siopau teganau)
- Llyfr “Tyrd i Ddathlu”
- Geiriau'r gân

1. Cofrestru

Cardiau aelodaeth, os ydych yn eu defnyddio.

2. Gêm wrth gyrraedd

“Dec y llong” – dilyn cyfarwyddiadau'r arweinydd. Plant allan os yn gwneud y symudiad anghywir, neu'n rhy araf. Gall pawb ymuno wrth gyrraedd.

Dec uchaf - i'r chwith
Dec isaf - i'r dde
Dec canol - canol
Capten - saliw
Planc - codi un goes
Dringo rhaffau - smalio dringo rhaffau
“Bombers” - smalio deifio!!! (yn ofalus)

Ar ddiwedd y gêm gofynnwch: Beth sy'n digwydd os nad ydi'r criw ar y llong yn cydweithio?

3. Sialens tîm

1. Mae'n bwysig iawn fod pob aelod o'r pentre yn helpu hefo'r sialens. Bydd pwyntiau am gydweithio.
2. Mae'n bwysig fod aelodau'r pentre'n sylwi ar y ffordd mae aelodau eraill yn helpu gyda'r gwaith. Ar ddiwedd y sialens, byddwch yn cael cyfle i ddweud un peth da wnaeth rhywun arall.

3. Y sialens yw adeiladu cysgod i bawb yn y pentre gan ddefnyddio: Bagiau plastig du, llynyn, selotêp, siswrn, 5 cadair. Gewch 20 munud i wneud y cysgod; ar ddiwedd yr 20 munud, rhaid i bawb o'r pentref fedru eistedd yn y cysgod.

4. Rhewch farciau am addasrwydd y cysgod a chydweithio'r tîm.

5. Arweinydd pob grŵp i ofyn i bawb ddweud un peth da am y ffordd roedd person arall yn helpu.

6. Gweddi yn y pentrefi: diolch am un peth da am y person nesaf yn y cylch.

4. O'r Beibl

Mae'r Beibl yn sôn am eglwys Iesu Grist fel corff – i gyd yn gweithio gyda'i gilydd. Mae'r un fath â bod mewn pentref ar ynys go iawn – pawb yn defnyddio ei doniau fel bod y pentre'n gweithio'n iawn. Mae hyn yn debyg i griw ar long.

Gwrandewch ar y darlenniad a phan glywch chi enw rhan o'r corff, gwnewch symudiad neu sŵn gyda'r rhan honno o'ch corff chi!

14 Dydy'r **corff** ddim i gyd yr un fath – mae iddo lawer o wahanol rannau. 15 Petai **troed** yn dweud “Am nad ydw i'n **llaw** dw i ddim yn rhan o'r **corff**,” fyddai'r **droed** honno yn peidio bod yn rhan o'r **corff**? Wrth gwrs ddim! 16 Neu petai **clust** yn dweud, “Am nad ydw i'n **llygad** dw i ddim yn rhan o'r **corff**,” fyddai hi'n peidio bod yn rhan o'r **corff** wedyn? Na! 17 Fyddai'r **corff** ddim yn gallu **clywed** petai'n ddim byd ond **llygaid**! A phetai'n ddim byd ond **clustiau**, sut fyddai'n gallu **arogli**? 18 Duw sydd wedi gwneud y **corff**, a rhoi pob rhan yn ei lle, yn union fel roedd e'n **gweld** yn dda. 19 Petai pob rhan o'r **corff** yr un fath â'i gilydd, fyddai'r **corff** ddim yn bod! 20 Mae angen llawer o wahanol rannau i wneud un **corff**. 21 Dydy'r **llygad** ddim yn gallu dweud

wrth y **llaw**, “Does arna i ddim o dy angen di!” A dydy’r **pen** ddim yn gallu dweud wrth y **traed**, “Does arna i ddim o’ch angen chi!” 22 Yn hollol fel arall – mae’r rhannau hynny o’r **corff** sy’n ymddangos leia pwysig yn gwbl hanfodol! 23 Mae angen dangos gofal arbennig am y rhannau hynny sydd ddim yn amlwg. Mae rhannau preifat y **corff** yn cael gwisg i’w cuddio o olwg pobl er mwyn bod yn weddus. 24 Does dim angen triniaeth sbesial felly ar y rhannau sy’n amlwg! Ac mae Duw wedi rhoi’r eglwys at ei gilydd fel **corff**, ac wedi

dangos gofal arbennig am y rhannau oedd yn cael dim parch. 25 Ei fwriad oedd fod dim rhaniadau i fod yn y **corff** – a bod pob rhan i ddangos yr un gofal am ei gilydd. 26 Felly, os ydy un rhan o’r **corff** yn dioddef, mae’r **corff** i gyd yn dioddef; neu os ydy un rhan yn cael ei anrhydeddu, mae’r **corff** i gyd yn rhannu’r llawenydd.

27 Chi gyda’ch gilydd ydy **corff** y Meseia, ac mae pob unigolyn yn rhan o’r **corff** hwnnw.

(fersiwn Beibl.net)

5. Mr Potato Head

Dangoswch y “Mr Potato Head” i’r plant gyda phob rhan yn ei le.

- Beth sy’n hwyl am “Mr Potato Head” yw eich bod yn gallu symud y darnau i bob man a chreu cymeriad digri iawn! Mae Paul yn ei lythyr at ei ffrindiau yn Corinth, dinas yng ngwlad Groeg, eisiau dweud rhywbeth pwysig iawn wrthyn nhw. *Tynnwch pob darn i ffwrdd a rhowch y dwylo mewn llyfydd gwahanol.*
- Weithiau, mewn criw hefo’i gilydd mae yna ambell un sy’n gallu gwneud rhywbeth yn dda iawn. Mae fel tase pawb yn gweld eu doniau nhw.
- Ond mae Paul yn dweud fod gan bawb ei ddawn, mae pob un yn bwysig, ac mae cyfraniad pawb yn cyfri mewn tîm – dydi corff â dim ond dwylo ddim yn gweithio cystal â chorff hefo dwylo (*rhowch y breichiau yn y lle iawn*), traed (*gosodwch y traed yn eu lle*), llygaid (*gosod y llygaid*), trwyn a cheg (*eu gosod*).
- Mae Iesu eisiau i chi fod yn ei dîm. Does arno ddim eisiau i chi fod yr un fath yn union â neb arall i fod yn Ei dîm – dim ond derbyn ei wahoddiad, a bod yn chi’ch hun. Mae Duw wedi eich creu fel yr ydych chi, ac wedi rhoi doniau arbennig i chi. Dydi’r tîm ddim yr un fath hebddoch chi.

6. Gweddi

Diolch i Dduw am ein creu ni fel yr ydyn ni. Diolch am rannau’r corff sy’n gweithio mor dda gyda’i gilydd. Diolch am bawb sy’n rhan o dîm y clwb. Diolch ein bod ni i gyd yn wahanol. Diolch fod ein doniau ni yn gallu gweithio gyda’i gilydd i greu tîm da.

7. Cân

“O fy nhraed i fy nghlust” (Tyrd i Ddathlu 22)

8. Dawns y pentrefi

Nod

Cyflwyno fod Cristnogion i gyd ar daith, a bod angen cadw'n golwg ar ddiwedd y daith er mwyn dal i fynd.

Bydd angen:

- “Rice Krispies”
- 2 bowlen fach i bob tîm
- Gwelltyn i bob plentyn
- Llyfr “Tyrd i Ddathlu”
- Geiriau'r gân
- Paratoi 2 arweinydd ar gyfer y sgets
- Dillad rhedeg i 1 arweinydd
- Patrwm bachyn drws ar gerdyn i bob plentyn (Atodiad 5)
- Pinnau ffelt
- Sisyrnau
- Glud

1. Cofrestr

Tafleini cofrestru. Gwneud ymarferion corfforol e.e. naid seren, rhedeg yn yr unfan.

2. Gêm

Rhannu i dimau'r pentrefi. Rhowch ddwy bowlen i bob tîm gyda “Rice Krispies” yn un. Rhowch welltyn i bob plentyn. Ras gyfnewid yn erbyn y cloc yw hon. Pob plentyn i fynd fesul un i godi un “Rice Krispie” o'r bowlen lawn i'r bowlen wag gan ddefnyddio'r gwelltyn i'w symud, yna fynd yn ôl at ei dîm. Plentyn nesaf i gychwyn pan fydd y cyntaf yn ôl. Dal i fynd nes fydd yr amser ar ben. Y tîm fydd yn ennill yw'r un gyda'r mwyaf o “Rice Krispies” yn yr ail bowlen.

3. Cân

“Nid awyren fawr” (Tyrd i Ddathlu 17)

4. Sgets

Y dyn yn rhedeg

Person 1 yn loncian i mewn yn ei ddillad rhedeg, rhedeg o gwmpas y plant ac allan yn ôl. Dod yn ôl i mewn a rhedeg o gwmpas yr ystafell eto.

Person 2: Be wyt ti'n neud?

Person 1: Rhedeg. (ac yn rhedeg allan eto ... ac yn ôl i mewn)

Person 2: Dwi'n gweld mai rhedeg wyt ti, ond i ble wyt ti'n rhedeg?

Person 1: Dwn i ddim. (rhedeg allan eto, ac yn ôl i mewn)

Person 2: Pam wyt ti'n rhedeg ta?

Person 1: Dwn i ddim (rhedeg yn ei unfan, yn edrych yn ddryslyd)

Person 2: Beth ydi pwynt rhedeg ta?

Person 1: (Yn rhoi'r gorau i redeg) Dwn i ddim (Ac eistedd i lawr yn swp).

Dyna od! Rhedeg i bobman, ond ddim yn gwybod i ble, na pham, na beth oedd y pwynt rhedeg! Roedd y dyn cyfoethog yn y stori'r wythnos o'r blaen ychydig fel'na. Roedd o'n gwybod bod rhywbeth o'i le yn ei fywyd. Fe ddywedodd Iesu wrth y dyn fod angen iddo roi mwy o sylw i Dduw. Mae Iesu wedi addo os byddwn ni'n credu ynddo ac yn ymddiried ynddo y bydd ganddo wobr i ni yn y nefoedd.

Gwrandewch ar y stori am Paul, y dyn sgrifennodd am y tîm fel corff. Roedd Paul yn gwybod y byddai'n cael gwobr gan Iesu, ac roedd arno eisiau i bawb arall gael gwybod am y wobr honno hefyd.

5. Stori

Paul yn teithio i Rufain

(Effaith sain taranau)

Fflachiai'r mellt a rhuai'r taranau yn yr awyr ddu uwchben y llong fach oedd yn cael ei thafli i bob cyfeiriad gan y gwynt nerthol. Unwaith eto roedd Paul ar daith. Unwaith eto roedd ei fywyd mewn perygl.

Bu'n storm fel hyn ers pedwar diwrnod ar ddeg. Roedd y morwyr wedi gorfod taflu'r cargo dros yr ochr er mwyn arbed y llong rhag suddo. Doedd neb wedi bwyta na chysgu. Roedden nhw bron â digalonni'n llwyr . . . ond siaradodd Iesu gyda Paul gan addo y byddai pawb ar y llong yn cael eu hachub!

Pan wawriodd hi'r bore wedyn, roedd tir i'w weld. Er gwaetha'r gwynt a'r tonnau enfawr, dyma nhw'n troi trwyn y llong am y lan. Ond fel yr oedden nhw'n meddwl eu bod am gyrraedd y lan yn ddiogel

– CRASH – tarodd gwaelod y llong yn erbyn banc o dywod. Roedd yn rhaid iddyn nhw fentro a neidio i'r tonnau gwyllt, neu foddi wrth i'r llong gael ei churo'n ddarnau gan y tonnau.

Gafaelai'r rhai oedd yn methu nofio mewn darnau o'r llong, a rhywsut neu'i gilydd cyrhaeddodd pawb dir sych Ynys Melita'n ddiogel. Roedden nhw wedi colli'r llong, ond heb golli'r un bywyd, fel yr oedd Duw wedi addo.

Ond nid dyna oedd diwedd y perygl i Paul. Aeth pawb ati i gasglu coed tân a chynnau coelcerth fawr ar y traeth er mwyn cynhesu. Fel yr oedd y tân yn cynnu dyma wiber, neidr wenwynig, yn dod allan o'r coed a brathu Paul yn ei fraich. Roedd pawb yn disgwyl gweld braich Paul yn chwyddo oherwydd y gwenwyn, a oedd yn ddigon i ladd dyn, ond doedd Paul ddim gwaeth!

Rhoddodd dyn o'r enw Poplius lety i Paul am dri diwrnod. Roedd tad Poplius yn sâl ar y pryd, a wir

i chi, pan weddiodd Paul iddo wella fe ddaeth ato'i hun. Pan glywodd pobl sâl eraill ar yr ynys beth oedd wedi digwydd, fe ddaethon nhw at Paul i ofyn iddo weddio drostyn nhw. Cawson nhw eu gwella hefyd!

Ymhen tri mis roedd Paul yn ôl ar long ar ei ffordd i Rufain. Roedd wedi edrych ymlaen ers blynnyddoedd at gael mynd i ddweud wrth bobl yn Rhufain am Iesu. Mynd yno fel carcharor oedd Paul, ond wnaeth hyn mo'i rwystro rhag rhannu'r newyddion da am Iesu gyda'r bobl o'i gwmpas, a sgrifennu llythyrau at yr holl bobl yr oedd wedi cyfarfod â nhw ar ei deithiau.

Dyma un peth ddwedodd Paul mewn llythyr at ei ffrindiau yn Philipi yng ngwlad Groeg:

“Yr wyf yn cyflymu at y nod, i ennill y wobr y mae Duw yn fy ngalw i fyny ati yng Nghrist Iesu.”

Philipiaid pennod 3 adnod 14

6. Gweithgaredd

Bachyn drws

Gofynnwch i'r plant dorri'r holl ffordd o gwmpas y bachyn a'i liwio. Yna byddant yn ei blygu fel bod llun rhedwyr ar un ochr a'r adnod ar yr ochr arall. Bydd angen gludo i ddal y darnau wedi eu plygu yn eu lle. Gofynnwch iddynt ei roi ar fachyn drws eu llofft i'w hatgoffa i ddal ati gyda Iesu.

7. Gweddi

Gan mai hon yw sesiwn olaf y gyfres gofynnwch i'r plant eistedd mewn cylch i weddio dros ei gilydd. Rhowch arweiniad iddynt e.e. “O, Dduw, plis helpa ... i ddal i fynd fel ffrind Iesu, a'i ddilyn bob dydd”.

8. Dathlu!

Casglwch bwyntiau y pentrefi am y chwech wythnos a rhowch wobr fechan i'r pentref â'r mwyaf o bwyntiau. Gallwch hefyd wobrwyo y “pentrefwr gorau” e.e. plentyn sydd wedi dangos gofal arbennig am ei gyd-bentrefwyr, neu sydd wedi bod yn ffyddlon iawn yn ystod y chwech wythnos. Beth am ddod â ffrwythau trofannol i'w rhannu rhwng y plant, neu sudd ffrwythau trofannol?

9. Dawns y pentrefi ... am y tro olaf!

Cofiwch roi gwybod i'r plant beth fyddwch chi'n ei wneud nesaf fel clwb!

Ffeil o ffeithiau

Fy enw

Fy oed

Fy rheulu


Fy anifeiliaid anwes

Fy hoff fwyd






Fy ffrindiau

Fy niddordebau

Fy hoff raglen deledu







A
Z
W

A
Z
A
E

ROD
DOR
DOR

IR
D
Z
Y
N

Gerdyn Aelodaeth Cnau Coco

ENW:

Caled

Wythnos 1	Wythnos 2	Wythnos 3
Wythnos 4	Wythnos 5	Wythnos 6



Gerdyn Aelodaeth Cnau Coco

ENW:

Caled

Wythnos 1	Wythnos 2	Wythnos 3
Wythnos 4	Wythnos 5	Wythnos 6



Gerdyn Aelodaeth Cnau Coco

ENW:

Caled

Wythnos 1	Wythnos 2	Wythnos 3
Wythnos 4	Wythnos 5	Wythnos 6




Gerdyn Aelodaeth Cnau Coco

ENW:

Caled

Wythnos 1	Wythnos 2	Wythnos 3
Wythnos 4	Wythnos 5	Wythnos 6





Dechrau

Diwedd

Bachyn drws

